# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO

## DYDD IAU, 7 MAWRTH 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd R.E. Evans (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| B.W. Jones | T. Davies | H.B. Shepardson | R. Sparks |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| D.M. Cundy | W.R.A. Davies | H.L. Davies | J.K. Howell |
| D. Owen | M. Palfreman | M. Thomas | |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Cynghorydd **Error! No document variable supplied.**

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)**
Cynghorydd **Error! No document variable supplied.**

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau DemocrataiddM. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.50 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd B. Davies.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

**3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**4. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL (CCA) DRAFFT CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN 2018- 2033**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn gofyn am ei sylwadau ar gynigion ar gyfer cynnal ymgynghoriadau pellach dros gyfnod o chwe wythnos ar y Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol i Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033:

- Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur
- Y Gymraeg
- Mannau Agored: Gofynion ar gyfer Integreiddio Mannau Agored o fewn Datblygiadau Preswyl Newydd

Nododd y Pwyllgor y byddai'r cynigion, os cânt eu cymeradwyo, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor er mwyn cynnal yr ymgynghoriadau ffurfiol.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mewn ymateb i ymholiadau ynghylch cynnwys aelodau lleol wrth lunio Cytundebau Adran 106 ar Geisiadau Cynllunio ac unrhyw gyfraniadau ariannol priodol, hysbyswyd y Pwyllgor am bwysigrwydd cynnwys aelodau lleol ar ddechrau'r broses. Felly awgrymwyd trefnu seminar i gynorthwyo aelodau i ddeall eu rôl yn llawn a pharamedrau cyfreithiol y Cytundebau hynny.
- Dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio hefyd, er bod yr Adran Gynllunio yn gyfrifol am lunio a monitro Cytundebau Adran 106, ynghyd â chasglu cyfraniadau ariannol y cytunwyd arnynt, mai'r Biwro Cymunedol yn yr Is-adran Adfywio sy'n gyfrifol am ddyrannu taliadau Adran 106 i'r cynlluniau diffiniedig o fewn y cytundebau cyfreithiol hynny.
- O ran sefydlu panel arbenigol i reoli'r broses o asesu Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur, dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio, er nad oedd ei aelodaeth wedi'i phennu eto, y byddai ei aelodau craidd yn cynnwys cynllunwyr ac ecolegwyr a gefnogir gan arbenigwyr allanol perthnasol, fel sy'n ofynnol gan briodoleddau penodol safleoedd unigol.
- Mewn perthynas â chwestiwn ar adran 5.1 a chyd-destun deddfwriaethol a pholisi CCA ar gyfer y Gymraeg, dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio ei fod yn ychwanegu at achos y Cyngor wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a dyna pam y datganwyd bod y Sir gyfan yn Ieithyddol Sensitif. Dywedodd hefyd, wrth baratoi'r ddogfen, fod y Cyngor wedi gweithio gydag Ymgynghorwyr y Gymraeg, Iaith, i gasglu tystiolaeth ar effaith dull o'r fath mewn rhannau eraill o Gymru a sut y gellid defnyddio'r dystiolaeth honno i gefnogi achos y Cyngor. Fodd bynnag, roedd rhaid i'r Cyngor wrth baratoi'r CCA weithio o fewn Canllawiau Llywodraeth Cymru o hyd.
- O ran amserlen ar gyfer mabwysiadu'r CCA, dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio fod rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Wedi hynny, byddent yn rhan o gyflwyniad y Cyngor i PEDW (Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru) ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Er mai PEDW fyddai'n gyfrifol am sefydlu'r amserlen, rhagwelwyd y byddai elfen 'gwrandawiad' y Cynllun yn dechrau tua diwedd Gorffennaf 2024 ac y byddai adroddiad yr arolygwyr yn cael ei dderbyn gan y Cyngor i'w fabwysiadu ddechrau 2025.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**4.1 gymeradwyo cynnal ymgyngoriadau pellach ar y 3 dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol uchod i Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033**
**4.2 Trefnu seminar aelodau ar Gytundebau Adran 106 a rôl aelodau lleol.**

## 5. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad(au) craffu canlynol

- Adroddiadau Monitro Dyraniadau Tai Cymdeithasol Brys
- Strategaeth Tai 10 Mlynedd

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiadau.**

## 6. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 16 Ebrill 2024

Cyfeiriwyd at adroddiad Diweddariad Pentre Awel a drefnwyd ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor a gwnaed awgrym y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle i weld y cynnydd ar y datblygiad hwnnw

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 gymeradwyo'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 16 Ebrill 2024.**
**6.2 bod y Pwyllgor yn cynnal ymweliad safle i weld y cynnydd ar Ddatblygiad Pentre Awel.**

## 7. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a nodai'r hyn a wnaed mewn perthynas â cheisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 26 IONAWR 2024

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2024 fel cofnod cywir.**

CHAIR

DATE